

# canllaw byr i'r

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

# a short guide to

the Local Government Pension Scheme

## Cynnwys

---

|                                               | Tudalen |
|-----------------------------------------------|---------|
| Y Cynllun                                     | 3       |
| Ymddeoliad                                    | 5       |
| Y Buddion                                     | 7       |
| Diogelwch ar gyfer eich Teulu                 | 9       |
| Rhai sy'n gadael heb hawl<br>di-oed i fuddion | 10      |
| Cymorth gyda Phroblemau Pensiwn               | 14      |
| Manylion Cyswllt                              | 16      |

## Contents

---

|                                                         | Page |
|---------------------------------------------------------|------|
| The Scheme                                              | 3    |
| Retirement                                              | 5    |
| The Benefits                                            | 7    |
| Protection for your Family                              | 9    |
| Leavers without an immediate<br>entitlement to benefits | 10   |
| Help with Pension Problems                              | 14   |
| Contact Details                                         | 16   |

## Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yng Nghymru a Lloegr

Mae hwn yn ddisgrifiad byr o amodau aelodaeth y cynllun, ynghyd â'r prif fuddion sy'n berthnasol os ydych yn cyfrannu i'r CPLIL ar Ebrill 1 2019 neu ar ôl hynny.

### Pa fath o gynllun ydyw?

Mae'r CPLIL yn gynllun pensiwn galwedigaethol, yn dreth gymeradwyedig, ddiffiniedig a sefydlwyd dan Ddeddf Blwydd-dâl 1972. Seilir buddion y cynllun o 1 Ebrill 2014 ar eich Cyfartaledd Cyflog Gyrfya Wedi'i Adbriso. Mae'n ddiogel iawn oherwydd fe drefnir y buddion yn unol â'r gyfraith.

### Pwy all ymuno?

Mae'r CPLIL yn cynnwys Llywodraeth Leol a sefydliadau eraill sydd wedi dewis cyfranogi ynddo. Byddwch yn cael eich dwyn i mewn i'r cynllun yn awtomatig os oes gennych gontract cyflogaeth am o leiaf 3 mis ac rydych o dan oed 75. Fel arall, os oes gennych gontract cyflogaeth o lai na 3 mis ond rydych o dan oed 75, NI fyddwch yn dod i mewn i'r cynllun yn awtomatig, ond byddwch yn cael y dewis i ymuno gan eich Cyflogwr.

Os ydych yn Swyddog yr Heddlu, Diffoddwyr Tân neu Athro, ni fyddwch yn cael caniatâd i ymuno â'r CPLIL.

### Sut ydwyf yn sicrhau fy mod yn dod yn aelod o'r CPLIL?

I sicrhau eich hawl i fuddion y Cynllun, mae'n bwysig eich bod yn cwblhau a dychwelyd y ffurflenni ymuno. Wedi derbyn eich ffurflenni, fe ddarperir cofnodion perthnasol ac fe anfonir hysbysiad swyddogol o'ch aelodaeth o'r CPLIL i chi. Dylech wirio eich slip cyflog hefyd i sicrhau fod eich cyfraniadau pensiwn yn cael eu didynnu.

### Alla i optio allan o'r CPLIL ac ail ymuno yn ddiweddarach?

Gallwch adael y CPLIL ar unrhyw adeg drwy ofyn i'r Adran Bensiynau am ffurflen optio allan a'i ddychwelyd at eich Cyflogwr. Efallai fydd wedyn hawl gennych i ad-daliad o gyfraniadau pe baech yn gadael y cynllun o fewn 2 mlynedd o ymaelodi. Os byddwch yn optio allan, gallwch optio yn ôl i mewn i'r cynllun ar unrhyw adeg, ar yr amod eich bod o dan oed 75 ar y pryd. Fodd bynnag, bydd eich Cyflogwr yn gyfrifol am ddod â chi yn ôl i fewn i'r CPLIL o dan ofnyon Cofrestru Awtomatig. Bydd gennych yr opsiwn i optio allan eto pryd hynny. Efallai y byddwch yn dymuno cael Cyngor Ariannol Annibynol cyn i chi wneud y penderfyniad i adael y CPLIL.

Nodwch NI ddylech gwblhau datganiad optio allan cyn cychwyn eich cyflogaeth.

### Faint byddaf yn ei dalu?

Bydd graddfa eich cyfraniad yn dibynnu ar faint ydych yn cael eich talu, ond bydd rhwng 5.5% a 12.5% o'ch cyflog pensynadwy. Bydd y raddfa y byddwch yn ei thalu yn dibynnu ar eich band cyflog.

## The Local Government Pension Scheme (LGPS) in England and Wales

This is a short description of the conditions of membership and main scheme benefits that apply if you pay into the LGPS on or after 1 April 2019.

### What kind of scheme is it?

The LGPS is a tax approved, defined benefit occupational pension scheme set up under the Superannuation Act 1972. The benefits under the scheme are based on your Career Average Re-valued Earnings (CARE) from 1 April 2014. It is very secure because the benefits are set out in law.

### Who can join?

The LGPS covers Local Government and other organisations that have chosen to participate in it. You will be brought into the scheme automatically if you have a contract of employment that is for at least 3 months and you are under age 75. Alternatively, if you have a contract of employment of less than 3 months but you are under age 75, you will NOT be brought into the scheme automatically, but you will be given the option to join by your Employer.

If you are a Police Officer, Fire-fighter or Teacher you will not be allowed to join the LGPS.

### How do I ensure that I have become a member of the LGPS?

To secure your entitlement to the scheme benefits, it is important that you complete and return the joiner forms. On receipt of these forms, relevant records will be set up and an official notification of your membership to the LGPS will be sent to you. You should also check your pay slip to make sure that pension contributions are being deducted.

### Can I opt-out of the LGPS and re-join at a later date?

You can leave the LGPS at any time by requesting an opting out form from the Pension Section and returning it to your Employer. You may then be entitled to a refund of contributions if you leave the scheme within 2 years of joining. If you opt-out, you can opt back into the scheme at any time, provided you are under age 75. However, your Employer will be responsible for bringing you back into the LGPS under the requirements of Automatic Enrolment. You will then have the option to opt-out again. You may wish to seek Independent Financial Advice before you make a decision to opt-out of the LGPS.

Please note that you should NOT complete an opting out declaration before the commencement of your employment.

### How much will I pay?

Your contribution rate depends on how much you are paid, but it will be between 5.5% and 12.5% of your pensionable pay. The rate you pay will depend on which pay band you fall into.

| Cyflog Pensiynadwy Blynnyddol: | Graddfa Cyfrannu: |
|--------------------------------|-------------------|
| Hyd at £14,400                 | 5.5%              |
| £14,401 i £22,500              | 5.8%              |
| £22,501 i £36,500              | 6.5%              |
| £36,501 i £46,200              | 6.8%              |
| £46,201 i £64,600              | 8.5%              |
| £64,601 i £91,500              | 9.9%              |
| £91,501 i £107,700             | 10.5%             |
| £107,701 i £161,500            | 11.4%             |
| Mwy na £161,501                | 12.5%             |

Fel aelod o'r CPLIL, bydd eich cyfraniadau yn rhoi rhyddhad treth ar yr amser y byddant yn cael eu didynnu o'ch cyflog. Mae cyfyngiadau ar y swm o ryddhad treth sydd ar gael ar gyfraniadau pensiwn. Os yw gwerth eich cynilion pensiwn yn cynyddu o fwy na'r lwfans blynnyddol o £40,000 mewn unrhyw un flwyddyn, efallai bydd rhaid i chi dalu treth ychwanegol. Ni fydd y lwfans blynnyddol yn effeithio'r mwyafrif o bobl.

#### Ydy fy Nghyflogwr yn cyfrannu?

Mae eich Cyflogwr yn talu gweddill y gost o ddarparu eich buddion yn y CPLIL. Pob 3 blynedd fe ymgwymerir ag arolwg annibynnol i gyfrifo faint y dylai eich Cyflogwr gyfrannu i'r Cynllun.<sup>1</sup>

#### A allaf dalu mwy i gynyddu fy muddion?

Gallwch dalu ychwaneg o dan CPLIL i gynyddu eich buddion ymddeol. Gallwch wneud hyn trwy unai dalu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY) i brynu pensiwn CPLIL ychwanegol, neu trwy wneud taliadau i drefniant Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) y cynllun. Am ragor o wybodaeth ar yr opsiynau yma, cysylltwch â'r Adran Bensiynau.

#### A allaf dalu llai i mewn i'r CPLIL?

Cewch ddewis talu hanner eich cyfraniad arferol ac o ganlyniad cael hanner y pensiwn am y cyfnod hwn. Fodd bynnag, byddwch yn cadw'r ddarpariaeth lawn o ran gwarchodaeth salwch a marwolaeth yn ystod y cyfnod hwn. Os dymunwch ymuno â'r **adran 50/50**, bydd angen ichi ofyn am **ffurflen ethol** gan eich Cyflogwr. I ailymaelodi â'r **Brif adran**, bydd angen ichi lenwi ffurflen ethol arall.

#### A allaf drosglwyddo buddion pensiwn i'r CPLIL?

Gellir trosglwyddo buddion cronedig blaenorol yn y CPLIL neu drefniadau pensiwn eraill i mewn i'r CPLIL. Rhaid dewis trosglwyddo cyn pen 12 mis i ymaelodi neu gyfnod hirach os bydd eich Cyflogwr yn caniatáu. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch Cyflogwr.

<sup>1</sup> Yn y dyfodol efallai y bydd angen i gynyddiadau neu ostyngiadau yn y gost o ddarparu'r cynllun gael eu rhannu rhwng aelodau a chyflogwyr, yn unol â chyfarwyddyd y Llywodraeth.

| Annual Pensionable Pay: | Contribution Rate: |
|-------------------------|--------------------|
| Up to £14,400           | 5.5%               |
| £14,401 to £22,500      | 5.8%               |
| £22,501 to £36,500      | 6.5%               |
| £36,501 to £46,200      | 6.8%               |
| £46,201 to £64,600      | 8.5%               |
| £64,601 to £91,500      | 9.9%               |
| £91,501 to £107,700     | 10.5%              |
| £107,701 to £161,500    | 11.4%              |
| More than £161,501      | 12.5%              |

As a member of the LGPS, your contributions will attract tax relief at the time they are deducted from your pay. There are restrictions on the amount of tax relief available on pension contributions. If the value of your pension savings increase in any one year by more than the annual allowance of £40,000, you may have to pay a tax charge. Most people will not be affected by the annual allowance.

#### Does my Employer contribute?

Your Employer pays the balance of the cost of providing your benefits in the LGPS. Every 3 years, an independent review is undertaken to calculate how much your Employer should contribute to the Scheme.<sup>1</sup>

#### Can I pay more to increase my benefits?

You can pay extra under the LGPS to increase your retirement benefits. You can do this either by paying Additional Pension Contributions (APC) to buy extra LGPS pension or by making payments to the scheme's Additional Voluntary Contribution (AVC) arrangement. For further information on these options, please contact the Pension Section.

#### Can I pay less into the LGPS?

You can elect to pay half your normal contribution to receive half the level of pension in return for this period. However, you will retain full ill health and death cover during this time. If you wish to join the **50/50 section** of the scheme, you will need to request an **election form** from your Employer. When you wish to come back into the **Main section**, you will then need to complete another election form.

#### Can I transfer pension benefits into the LGPS?

Benefits that you have previously accrued in the LGPS or in other pension arrangements can be transferred into the LGPS. An option to transfer must be made within 12 months of joining or such longer period as your Employer allows. To find out more, please contact your Employer.

<sup>1</sup> Increases or decreases in the cost of providing the scheme may, in future, need to be shared between members and employers in accordance with Government guidance.

## Ymddeoliad

Er mwyn fod yn gymwys i fuddion ymddeoliad y CPLIL, mae'n rhaid i chi fod yn aelod o'r cynllun am o leiaf 2 mlynedd neu wedi trosglwyddo hawliau pensiwn eraill i'r CPLIL, neu fod gennych fuddion gohiriedig yn y CPLIL yn Lloegr neu yng Nghymru.

### Pryd gallaf ymddeol?

Gallwch ymddeol a derbyn buddion llawn y CPLIL unwaith y byddwch wedi cyrraedd eich Oedran Pensiwn Arferol (OPA), sy'n gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (OPW) a all newid yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Cynllun hefyd yn darparu ar gyfer taliadau cynnar o'ch buddion CPLIL.

### Beth yw fy muddion ymddeol CPLIL?

Pan fyddwch yn ymddeol byddwch yn derbyn pensiwn blynyddol ac fe fydd gennych y dewis i gymryd rhan o'ch pensiwn fel lwm swm yn rhydd o dreth. Os ydych wedi ymuno â'r CPLIL cyn 1 Ebrill 2008, bydd eich pecyn buddion safonol yn cynnwys lwm swm yn rhydd o dreth awtomatig, fel y disgrifir yn yr adran **Y Buddion**.

### Alla i ymddeol yn gynnar?

Gallwch ddewis yn wirfoddol i ymddeol yn gynnar a derbyn eich buddion CPLIL ar unrhyw oed rhwng 55 a 75 mlwydd oed, ond efallai y bydd eich buddion yn cael eu lleihau yn actiwaraid i gymryd i ystyriaeth eu bod yn cael eu talu'n gynnar cyn eich OPA.

### A oes unrhyw gosbedigaethau am ymddeol yn gynnar a chymryd buddion yn syth?

Os ydych yn ymddeol yn wirfoddol cyn eich OPA, bydd eich buddion CPLIL yn cael eu lleihau i gymryd i ystyriaeth eu bod yn cael eu talu yn gynnar a'r ffaith y bydd eich pensiwn yn daladwy am gyfnod hwy. Fodd bynnag, os ymunoch â'r CPLIL ar neu cyn 30 Medi 2006 mae'n bosib eich bod wedi cael eich gwarchod yn erbyn y gostyngiadau posibl ar ran neu'r cyfan o'ch buddion.

Os ydych yn ymddeol yn wirfoddol cyn eich OPA neu yn ymddeol ar neu ar ôl eich OPA, gallwch ohirio derbyn eich buddion, ond rhaid i chi eu derbyn cyn 75 mlwydd oed. Os ydych yn derbyn eich pensiwn ar ôl eich OPA, bydd eich buddion yn cael eu talu ar raddfa uwch i adlewyrchu'r taliad hwyr.

### Beth wnaiff ddigwydd os rwyf yn derbyn pensiwn CPLIL ac yn cael fy ail-gyflogi?

Os ydych yn cael eich ail-gyflogi o fewn Lywodraeth Leol neu gan Gyflogwr sydd yn cynnig aelodaeth o'r CPLIL, yna mae rhaid datgan wrth y Gronfa Bensiwn (ble derbynnir eich pensiwn), eich bod wedi dyfod yn ail-gyflogedig - difater os ydych eisiau ymuno a'r cynllun ai beidio. Yn y sefyllfa yma, buasai gwiriad yn digwydd i weld os fyddai'r pensiwn yn gostwng neu hyd yn oed yn cael ei stopio.

## Retirement

To be entitled to LGPS retirement benefits, you must have at least 2 years membership or have transferred other pension rights into the LGPS, or already have a deferred benefit in the LGPS in England and Wales.

### When can I retire?

You can retire and receive your LGPS benefits in full once you have reached your Normal Pension Age (NPA), which is linked to your State Pension Age (SPA) and may change in the future. However, the Scheme also makes provisions for the early payment of your LGPS benefits.

### What are my LGPS retirement benefits?

When you retire, you will receive an annual pension and have the option to take part of your pension as a tax-free lump sum. If you joined the LGPS before 1 April 2008, your standard benefit package will include an automatic tax-free lump sum, as described in **The Benefits** section.

### Can I retire early?

You can elect to voluntarily retire and receive your LGPS benefits at any age from 55 to 75, but your benefits may be actuarially reduced to take account of early payment before your NPA.

### Are there any penalties for retiring early and drawing immediate benefits?

If you voluntarily retire before your NPA, your LGPS benefits will be reduced to take account of their early payment and the fact that your pension will be payable for longer. However, if you joined the LGPS on or before the 30 September 2006, you may have been protected against the possible reduction to some or all of your benefits.

If you voluntarily retire before your NPA or retire on or after your NPA, you can defer drawing your benefits, but you must draw them before age 75. If you draw your pension after your NPA, your benefits will be paid at an increased rate to reflect the late payment.

### What if I'm already receiving an LGPS pension and I have become re-employed?

If you become re-employed in Local Government or by an Employer who offers you membership of the LGPS, you must tell the Pension Fund that pays your pension that you have become re-employed, regardless of whether you wish to join the scheme or not. A check will then be made to see whether your pension will be reduced or even stopped.

## **Beth os yw fy Nghyflogwr yn fy ymddeol ar sail ddiswyddiad neu effeithlonrwydd busnes?**

Os ydych yn 55 mlwydd oed neu'n hŷn, bydd gennych hawl i daliad o'ch buddion CPLIL yn syth, heb ostyngiad.

## **Beth fydd yn digwydd os bydd yn rhaid i mi ymddeol yn gynnar oherwydd salwch?**

Os bydd yn rhaid i chi adael gwaith ar unrhyw oedran oherwydd gwaeledd iechyd parhaol, sydd angen ei ardystio gan feddyg iechyd galwedigaethol annibynnol a benodir gan eich Cyflogwr, mae'r cynllun yn darparu pecyn ymddeol haenog ar sail gwaeledd. Gallai hyn olygu y telir buddion i chi'n syth, ac os yw'n annhebygol y byddwch yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig cyn pen 3 blynedd ar ôl i chi adael, mae'n bosibl y bydd y buddion hyn yn cynyddu.

Mae gwaith cyflogedig yn golygu gwaith cyflogedig am ddim llai na 30 awr yr wythnos am gyfnod o ddim llai na 12 mis.

## **Beth os ydwyf yn dymuno symud yn raddol i ymddeoliad?**

Gelwir hyn yn ymddeoliad Hyblyg. O 55 mlwydd oed ymlaen, os ydych yn cwtogi ar eich oriau neu'n ymgymryd â swydd â llai o gyfrifoldeb, ac os yw eich Cyflogwr yn cytuno, gallwch gymryd eich holl fuddion neu rai ohonynt – bydd hyn yn eich cynorthwyo i ymddeol wrth eich pwysau. Os ydych yn cymryd ymddeoliad hyblyg cyn eich OPA, gall eich buddion cael eu lleihau er mwyn cymryd i ystyriaeth y ffaith eu bod yn cael eu talu'n gynnar oni bai bod eich Cyflogwr yn cytuno i hepgor y gostyngiad yn gyfan neu'n rhannol.

Gallwch barhau i dalu i mewn i'r CPLIL ar eich oriau llai neu yn eich swydd newydd, gan adeiliadu rhagor o fuddion yn y Cynllun. Mae ymddeoliad Hyblyg yn dibynnu ar ddisgresiwn eich Cyflogwr a bydd yn rhaid iddynt drefnu eu polisi ynglŷn â hyn mewn datganiad cyhoeddedig.

## **Beth os wyf yn parhau i weithio ar ôl fy OPA?**

Os ydych yn parhau i weithio ar ôl eich OPA, byddwch yn parhau i dalu i mewn i'r cynllun, gan ychwanegu rhagor o fuddion. Byddwn yn talu eich pensiwn ar ôl i chi ymddeol, neu pan fyddwch yn cyrraedd noswyl eich pen-blwydd yn 75, neu os ydych yn cymryd ymddeoliad hyblyg gyda chaniatâd eich Cyflogwr, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf. Os ydych yn cymryd eich pensiwn ar ôl eich OPA, bydd yn cael ei gynyddu i adlewyrchu'r ffaith y bydd yn cael ei dalu dros gyfnod llai. Bydd yn rhaid talu eich pensiwn cyn eich penblwydd yn 75.

## **What if my Employer retires me on the grounds of redundancy or business efficiency?**

If you are aged 55 or over, you will be entitled to the immediate unreduced payment of your LGPS benefits.

## **What happens if I have to retire early due to ill health?**

If you have to leave work at any age due to permanent ill health, which has to be certified by an independent occupational health physician appointed by your Employer, the scheme provides a tiered ill health retirement package. This could give you benefits, paid straight away, and which could be increased if you are unlikely to be capable of undertaking gainful employment within 3 years of leaving.

Gainful employment means paid employment for not less than 30 hours a week for a period of not less than 12 months.

## **What if I want to have a gradual move into retirement?**

This is known as Flexible retirement. From age 55, if you reduce your hours or move to a less senior position, and provided your Employer agrees, you can draw some or all of the pension benefits you have built up – helping you ease into retirement. If you take Flexible retirement before your NPA, your benefits may be reduced to take account of their early payment, unless your Employer agrees to waive the reduction in whole or in part.

You can continue paying into the LGPS on your reduced hours or in your new role, building up further benefits in the Scheme. Flexible retirement is at the discretion of your Employer and they must set out their policy on this in a published statement.

## **What if I carry on working after my NPA?**

If you carry on working after your NPA, you will continue to pay into the scheme, building up further benefits. We will pay your pension when you retire or when you reach the eve of your 75th birthday, or if you take flexible retirement with your Employer's consent, whichever occurs first. If you draw your pension after your NPA, it will be increased to reflect the fact that it will be paid for a shorter time. Your pension has to be paid before your 75th birthday.

## Y Buddion

### Sut y caiff fy mhensiwn ei gyfrifo?

Pan fyddwch yn ymddeol, byddwch yn derbyn pensiwn sy'n cynyddu'n flynyddol yn unol â mynegai cysylltiedig, sy'n daladwy am eich oes, a dewis i gyfnewid rhan o'ch pensiwn (yn amodol ar gyfyngiadau CThEM) am lwmp swm di-dreth, sy'n daladwy i chi pan fyddwch yn tynnu eich buddion.

Bob blwyddyn, byddwch yn cronni pensiwn sy'n gyfwerth â 1/49fed o'r tâl pensiynadwy yr ydych wedi ei dderbyn yn y flwyddyn gynllun (o 1 Ebrill - 31 Mawrth). Eich cyflog pensiynadwy yw'r elfen o dâl ble rydych yn talu cyfraniadau pensiwn arno. Os ydych wedi dewis ymuno â'r adran 50/50 y cynllun, bydd y gyfradd y mae eich pensiwn yn adeiladu yn hanner y gyfradd yma h.y. 1/98fed o'ch cyflog pensiynadwy.

Bydd y pensiwn yr ydych yn adeiladu i fyny o 1 Ebrill - 31 Mawrth wedyn yn cael ei ychwanegu at eich cyfrif pensiwn ac yn cael ei hailbrisio yn unol â mynegai chostau byw priodol bob mis Ebrill. Mae'r enghraifft isod yn dangos sut y mae eich pensiwn yn cael ei gyfrifo.

O 1 Ebrill hyd at 31 Mawrth (**Flwyddyn Gynllun 1**), mae cyflog pensiynadwy Sian wedi cael ei asesu fel £15,000. Mae'r pensiwn sydd wedi cael ei ychwanegu at ei chyfrif mewn perthynas â'r flwyddyn yma wedi ei gyfrifo fel a ganlyn:

$$1/49 \times £15,000 = \textbf{£306.12}$$

Wedi ychwanegu £306.12 i gyfrif pensiwn Sian, mae yna yn cael ei adbrisio i gymryd ystyried cynyddiad chwyddiant tybiedig o 2% (£306.12 + 2% = **£312.24**).

Yn Flwyddyn Gynllun 2, aseswyd cyflog pensiynadwy Sian fel £15,150:

$$1/49 \times £15,150 = \textbf{£309.18}$$

Mae £309.18 yn cael ei ychwanegu i'w chyfrif pensiwn (£312.24 + £309.18 = **£621.42**). Bydd ei chyfrif wedyn yn cael ei adbrisio i gymryd i ystyried cynyddiad chwyddiant tybiedig o 2.5%. Gwerth ei chyfrif pensiwn ar ol Blwyddyn Cynllun fydd **£636.96**.

Fodd bynnag, os yw Sian yn ethol i gyfrannu i'r adran 50/50 y cynllun ar gyfer y cyfan o'r flwyddyn gyntaf, bydd ei phensiwn yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

$$1/98 \times £15,000 = \textbf{£153.06} \text{ (+ 2\% cynyddiad chwyddiant tybiedig = } \textbf{£156.12}).$$

Nodwch y gwahaniaeth mewn **adeiladaeth pensiwn** Sian wrth gyfranu yn yr Adran 50/50 o'r Cynllun (£312.24 llai £156.12 = **£156.12**).

### Cyfnewid rhan o'ch pensiwn i dderbyn lwmp swm di-dreth

O dan reoliadau CThEM, gallwch gyfnewid rhan o'ch pensiwn blynyddol am daliad unigol rhydd o dreth. Gallwch gymryd hyd at 25% o werth cyfalaf eich buddion pensiwn fel lwmp swm ac fe fyddwch yn derbyn £12 lwmp swm ar gyfer pob £1 o bensiwn a rhoi'r heibio.<sup>2</sup>

### A allaf gymryd fy CGY (AVC) mewnol fel arian parod?

Os ydych yn talu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY) trwy'r CPLIL, bydd gennych opsiynau amrywiol ynghylch ei dalu. I gael rhagor o wybodaeth am yr opsiynau hyn, cysylltwch â'r Adran Bensiynau.

<sup>2</sup> Ar yr amod nad yw'r lwmp swm cyfan yn fwy na £263,750, llai gwerth unrhyw hawliau pensiwn arall sydd gennych.

## The Benefits

### How is my pension calculated?

When you retire, you will receive an indexed linked annual pension that is payable for your lifetime, plus the option to exchange part of your pension (subject to HMRC limits) for a tax-free lump sum, payable when you draw your benefits.

Every year, you will build up a pension that is equal to 1/49th of the pensionable pay that you have received in that scheme year (from 1 April to 31 March). Your pensionable pay is the amount of pay on which you pay your pension contributions. If you have elected to join the 50/50 section of the scheme, the rate at which your pension builds will be half this rate i.e. 1/98th of your pensionable pay.

The pension that you build up from 1 April to 31 March is then added to your pension account and is revalued in line with the appropriate cost of living index each April. The example below shows how your pension is calculated.

From 1 April to 31 March (**Scheme Year 1**), Sian's pensionable pay has been assessed as £15,000. The pension added to her pension account in respect of this year has been calculated as:

$$1/49 \times £15,000 = \textbf{£306.12}$$

Having added £306.12 to her pension account, it is then revalued to take account of an assumed inflation increase of 2% (£306.12 + 2% = **£312.24**).

During **Scheme Year 2**, Sian's pensionable pay was assessed as £15,150:

$$1/49 \times £15,150 = \textbf{£309.18}$$

£309.18 is added to her pension account (£312.24 + £309.18 = **£621.42**). Her account is then revalued to take account of an assumed inflation increase of 2.5%. The value of her pension account after Scheme Year 2 is **£636.96**.

However, if Sian had elected to contribute to the 50/50 section of the scheme for the whole of Scheme Year 1, her pension would have been calculated as:

$$1/98 \times £15,000 = \textbf{£153.06} \text{ (+ a 2\% assumed inflation increase = } \textbf{£156.12}).$$

Note the difference in Sian's **pension build up** whilst contributing to the 50/50 Section of the Scheme (£312.24 less £156.12 = **£156.12**).

### Exchanging part of your pension for a tax-free lump sum

Under HMRC rules, you can exchange part of your annual pension for a one off tax-free cash payment. You can take up to 25% of the capital value of your pension benefits as a lump sum, by exchanging £1 of pension for £12 of lump sum.<sup>2</sup>

### What are the options regarding my in-house AVC?

If you contribute to an additional voluntary contribution (AVC) arrangement under the LGPS, you will have various options regarding its payment. For further information on these options, please contact the Pensions Section.

<sup>2</sup> Providing the total lump sum does not exceed £263,750, less the value of any other pension rights you have in payment.

## Beth os wyf wedi ymuno â'r CPLIL cyn 1 Ebrill 2014?

Newidiodd y CPLIL o fod yn gynllun cyflog terfynol i Gynllun Cyfartaledd Gyrfya Wedi'i Adbrisio ar 1 Ebrill, 2014. Fodd bynnag, os ydych wedi ymuno â'r cynllun ar neu cyn 31 Mawrth 2014, byddwch hefyd wedi adeiladu i fyny buddion yn y cynllun cyflog terfynol, a fydd yn parhau i fod yn seiliedig ar eich **cyflog terfynol** pan fyddwch yn gadael y cynllun neu'n dewis ymddeol.

Ar gyfer aelodaeth a adeiladwyd hyd at 31 Mawrth 2008, byddwch yn derbyn pensiwn sy'n gyfartal i 1/80fed o'ch cyflog terfynol, yn ogystal â lwmp swm di-dreth awtomatig o 3 gwaith gwerth y pensiwn hwn. Mae'r cyfrifiad hwn hefyd yn seiliedig ar eich aelodaeth o'r cynllun, sy'n cael ei gymesur os ydych yn gweithio'n rhan amser. Ar gyfer aelodaeth a adeiladwyd i fyny rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014, byddwch yn derbyn pensiwn sy'n gyfartal i 1/60fed o'ch cyflog terfynol, ond HEB hawl i lwmp swm di-dreth awtomatig. Fodd bynnag, byddwch yn cael y dewis i gyfnewid rhan o'ch pensiwn am lwmp swm di-dreth pan fyddwch yn ymddeol (fel y disgrifir ar y dudalen flaenorol).

Wrth ei ychwanegu at eich buddion Cyfartaledd Gyrfya, bydd hyn wedyn yn rhoi i chi chyfanswm gwerth eich buddion CPLIL. Mae'r enghraifft isod yn dangos sut y bydd eich buddion cyflog terfynol yn cael ei gyfrifo.

Mae gan Sian 10 mlynedd o aelodaeth yn y cynllun hyd at 31 Mawrth 2008 a 6 mlynedd o aelodaeth rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014. Mae hi wastad wedi gweithio'n llawn amser ac mae ei chyflog terfynol wedi cael ei gyfrifo fel £15,000.

Mae ei buddion cyflog terfynol yn cael eu cyfrifo fel a ganlyn:

### Aelodaeth hyd at 31 Mawrth 2008:

10 mlynedd x 1/80 x £15,000 = £1,875 Pensiwn Blynnyddol

10 mlynedd x 3/80 x £15,000 = £5,625 Lwmp Swm di-dreth Awtomatig

### Aelodaeth o 1 Ebrill 2008 hyd at 31 Mawrth 2014:

6 mlynedd x 1/60 x £15,000 = £1,500 Pensiwn Blynnyddol

DIM hawl i Lwmp Swm di-dreth Awtomatig

### Cyfanswm gwerth buddion Cyflog Terfynol:

£1,875 + £1,500 = £3,375 Pensiwn Blynnyddol

£5,625 Lwmp Swm di-dreth Awtomatig

## Pa gyflog bydd yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo fy muddion cyflog terfynol?

Fel arfer, fe gyfrifir eich buddion ar gyflog pensiynadwy eich blwyddyn olaf (os ydych yn rhan amser fe gynyddir eich cyflog olaf i'r hyn a fuasech wedi ei dderbyn pe buasech yn llawn amser). Fodd bynnag, gellir cyfrifo eich buddion ar gyflog un o'r ddwy flynedd flaenorol, os yw'n well ac, os yw eich cyflog yn gostwng, neu os yw'r cynnydd i'ch cyflog wedi ei gyfyngu yn eich 10 mlynedd diwethaf o wasanaeth di-dôr gyda'ch Cyflogwr, yna mae'n bosib i chi gael yr opsiwn i dderbyn eich buddion yn seiliedig ar gyfartaledd o unrhyw 3 blynedd olynol yn y 13 mlynedd ddiwethaf (yn diweddu ar 31 o Fawrth), cyn belled eich bod yn nodi eich dymuniad i wneud hynny yn ysgrifenedig i'ch Adran Bensiynau dim gwyrach na mis cyn gadael.

## A fydd fy mhensiwn yn cynyddu yn ystod fy ymddeoliad?

Mae'r CPLIL yn darparu cynyddiadau pensiwn statudol. Mae hyn yn golygu os ydych yn ymddeol ar neu ar ôl i chi gyrraedd 55 mlwydd oed, y bydd eich pensiwn yn cael ei gynyddu yn flynyddol yn unol â'r mynegai costau byw priodol. Cynyddir pensiynau gwaeledd iechyd yn flynyddol yn unol â'r mynegai costau byw priodol waeth beth fo'ch oedran.

## What if I joined the LGPS before 1 April 2014?

The LGPS changed from being a final salary scheme to a Career Average Re-valued Earnings (CARE) scheme on 1 April 2014. However, if you joined the scheme on or before 31 March 2014, you will also have built up benefits in the final salary scheme, which will continue to be based on your **final pay** when you leave the scheme or choose to retire.

For membership built up to 31 March 2008, you will receive a pension that is equal to 1/80th of your final pay, plus an automatic tax-free lump sum of 3 times the value of this pension. This calculation is also based on your membership of the scheme, which is proportioned if you work part time. For membership built up from 1 April 2008 to 31 March 2014, you will receive a pension that is equal to 1/60th of your final pay, but with NO automatic tax-free lump sum entitlement. However, you will have the option to exchange part of your pension for a tax-free lump sum when you retire (as described on the previous page).

When added to your CARE benefits, this will then provide you with the total value of your LGPS benefits. The example below shows how your final salary benefits will be calculated.

Sian has 10 years membership in the scheme up to 31 March 2008 and 6 years membership from 1 April 2008 to 31 March 2014. She has always worked full time and her final pay has been calculated as £15,000.

Her final salary benefits are calculated as follows:

### Membership up to 31 March 2008:

10 years x 1/80 x £15,000 = £1,875 Annual Pension

10 years x 3/80 x £15,000 = £5,625 Automatic tax-free Lump Sum

### Membership from 1 April 2008 to 31 March 2014:

6 years x 1/60 x £15,000 = £1,500 Annual Pension

NO Automatic tax-free Lump Sum entitlement

### Total value of Final Salary benefits:

£1,875 + £1,500 = £3,375 Annual Pension

£5,625 Automatic tax-free Lump Sum

## What pay will be used to calculate my final salary benefits?

Your final salary benefits will normally be calculated on your final year's full time equivalent pensionable pay (under the 2008 definition) when you retire. However, your benefits can be calculated on one of the two previous years' pay if higher, or if your pay is reduced or restricted in your last 10 years of continuous employment with your Employer, you have the option to base your final salary benefits on the average of any 3 consecutive years pay in the last 13 years (ending 31 March). To make this election, you will need to write to the Pension Section no later than 1 month before leaving.

## Will my pension increase during my retirement?

The LGPS provides statutory pension increases. This means that if you retire on or after age 55, your pension will be increased each year in line with the appropriate cost of living index. Ill health pensions are increased each year in line with the appropriate cost of living index regardless of age.

## Diogelwch ar gyfer eich Teulu

### Pa fuddion a delir ar fy marwolaeth?

Os ydych yn marw tra mewn gwaith, fel aelod o CPLIL telir y buddion a ddangosir isod.

- Lwmp swm **grant marwolaeth** o gyflog 3 blynedd neu gyflog rhan-amser o 3 flynedd os ydych yn gweithio'n rhan-amser. Os ydych wedi gostwng eich oriau o ganlyniad cyflwr neu salwch, sydd wedyn, yn marn meddyg iechyd galwedigaethol annibynnol, yn arwain at eich marwolaeth, yna bydd y gostyngiad yn eich oriau yn cael ei ddiystyru wrth gyfrifo'r cyflog i'w ddefnyddio ar gyfer lwmp swm grant marwolaeth ac wrth gyfrifo'r pensiwn goroeswr sy'n daladwy i'ch priod, partner sifil cofrestredig neu bartner cyd-fyw cymwys.
- Mae **Pensiwn goroeswr** yn daladwy yn awtomatig i naill ai eich priod, partner sifil cofrestredig neu, yn ddarostyngedig i amodau cymhwyso penodol, eich partner sy'n cyd-fyw cymwys. Mae'r pensiwn yn daladwy yn syth ar ôl i chi farw am eu hoes a bydd yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â mynegai costau byw priodol.

Ar gyfer aelodaeth a adeiladwyd i fyny o Ebrill 1 2014 hyd at eich dyddiad marwolaeth, mae'r pensiwn sy'n daladwy yn hafal i 1/160ain o'ch cyflog pensiynadwy wedi ei lluosu gydag eich aelodaeth yn y cynllun ar ôl 31 Mawrth 2014, yn ogystal â 49/160ain o swm unrhyw bensiwn sydd wedi ei gredydu i'ch cyfrif pensiwn yn dilyn trosglwyddo hawliau pensiwn, yn ogystal â phensiwn yn gyfartal i 1/160ain o'ch cyflog pensiynadwy tybiedig ar gyfer pob blwyddyn o aelodaeth y byddech wedi adeiladu i fyny o ddyddiad eich marwolaeth hyd at eich OPA.

- Pensiynau i **blant cymwysedig**.

Os byddwch yn marw ar ôl ymddeol, bydd pensiwn goroeswr yn daladwy yn awtomatig i'ch priod, partner sifil cofrestredig neu, yn ddarostyngedig i amodau cymhwyso penodol, eich partner sy'n cyd-fyw cymwys ac unrhyw blant cymwys sydd gennych. Mae grant marwolaeth yn daladwy os yw llai na 10 mlynedd o bensiwn wedi ei dalu ac eich bod o dan 75 mlwydd oed ar ddyddiad marwolaeth, yn yr achos yma fe delir gweddill 10 mlynedd o bensiwn fel lwmp swm.

Mae'r CPLIL hefyd yn caniatáu i chi ddweud pwy y buasech yn hoffi i dderbyn y grant marwolaeth trwy gwbllhau ffurflen Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth, sydd ar gael o wefan y Gronfa Bensiwn. Fodd bynnag, mae awdurdod gweinyddu'r Cynllun yn cadw disgrisiwn llwyr wrth benderfynu pwy i dalu'r grant marwolaeth iddynt.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am gymhwysedd eich Partner sy'n Cyd-fyw, neu ar gyfrifo pensiynau Plant, cysylltwch â'r Adran Bensiynau.

## Protection for your Family

### What benefits will be paid if I die?

If you die in service as a member of the LGPS, the benefits shown below are payable.

- A lump sum **death grant** of 3 years pay. If you work part-time, it's 3 years' part-time pay. If you have reduced your hours as a result of a condition or illness that, in the opinion of the independent occupational health physician, subsequently results in your death; the reduction in your hours is disregarded, both in calculating the pay to be used for the lump sum death grant and in calculating any survivor pension payable to your spouse, registered civil partner or eligible co-habiting partner.
- A **survivor's pension** is payable automatically to either your spouse, registered civil partner or, subject to certain qualifying conditions, your eligible co-habiting partner. The pension is payable immediately after your death for their lifetime and will increase every year in line with the appropriate cost of living index.

For membership built up from 1 April 2014 to your date of death, the pension payable is equal to 1/160th of your pensionable pay times your membership in the scheme after 31 March 2014; plus 49/160ths of the amount of any pension credited to your pension account following a transfer of pension rights; plus a pension equal to 1/160th of your assumed pensionable pay for each year of membership you would have built up from your date of death to your NPA.

- Pensions for **eligible children**.

If you die after your retirement, a survivor's pension is automatically payable to your spouse, registered civil partner or, subject to certain qualifying conditions, your eligible co-habiting partner and to any eligible children that you may have. A death grant is payable if less than 10 years pension has been paid and you are under age 75 at the date of death, in which case the balance of 10 years pension is paid as a lump sum.

The LGPS also allows you to say who you would like any death grant to be paid to by completing an Expression of Wish form, which is available from the Pension Fund website. The Scheme's administering authority, however, retains absolute discretion when deciding who to pay any death grant to.

If you wish to receive further information regarding the eligibility of your Co-habiting partner or the calculation of a Child's pension, please contact the Pension Section.

# Rhai sy'n gadael heb hawl di-oed i fuddion

## Ad-dalu Cyfraniadau

Os ydych yn gadael gyda llai na 2 flynedd o aelodaeth, heb ddod â throsglwyddiad i'r CPLIL a heb unrhyw fuddion gohiriedig CPLIL arall yng Nghymru neu Lloegr, gallwch gymryd ad-daliad o'ch cyfraniadau, llai unrhyw gostyngiadau treth (a'r gost o'ch prynu yn ôl i Ail Gynllun Pensiwn Gwlad (S2P), os yn berthnasol).

## Buddion gohiriedig

Os ydych yn gadael cyn eich OPA a bod cyfanswm eich aelodaeth yn 2 mlynedd neu fwy, neu os ydych wedi trosglwyddo hawliau pensiwn eraill i'r CPLIL, neu os oes gennych fudd gohiriedig yn y CPLIL yng Nghymru neu Lloegr, bydd gennych hawl i fuddion gohiriedig oddi fewn i'r CPLIL. Fe gyfrifir eich buddion gohiriedig CPLIL fel y disgrifir yn yr adran **Y Buddion**. Yn ystod y cyfnod mae'r buddion wedi eu gohirio, bydd eich buddion yn cynyddu'n flynyddol yn unol â mynegai costau byw priodol.

Oni bai eich bod yn penderfynu trosglwyddo eich buddion gohiriedig i gynllun pensiwn arall, fe fyddant, fel rheol yn cael eu talu pan fyddwch yn cyrraedd eich OPA, ond:

- gallant ddod yn daladwy yn gynt, ac yn gyflawn os oherwydd salwch yr ydych yn barhaol analluog o wneud y swydd yr oeddech yn gweithio ynddi pan adawsoch y CPLIL a'i fod y posibilrwydd yn is, oherwydd eich analluogrwydd, i chi gael unrhyw gyflogaeth cyflogedig o fewn tair blynedd o wneud cais am y buddion neu erbyn eich OPA, pa bynnag un yw'r cynharaf; neu;
- gallwch, os ydych yn dymuno, ddewis i dderbyn eich buddion gohiriedig yn gynnar o 55 mlwydd oed ymlaen; neu
- os dymunir, mae'n bosib i chi ethol i beidio derbyn eich buddion gohiriedig ar eich OPA a gohirio eu derbyn nes amser yn y dyfodol (ond, rhaid talu'r buddion gohiriedig erbyn i chi gyrraedd 75 mlwydd oed).

Gall buddion a dalwyd yn gynnar, heb gynnwys buddion a dalwyd ar sail waeledd iechyd parhaol, gael eu gostwng wrth gymryd i ystyriaeth eich bod wedi derbyn taliad yn gynnar, a'r ffaith y bydddech yn derbyn y pensiwn am gyfnod hwy. I'r gwrthwyneb, bydd buddion a dalwyd ar ôl eich OPA yn cael eu cynyddu.

Os byddwch yn marw cyn bod eich buddion gohiriedig yn cael eu talu, telir lwmp swm grant marwolaeth a fydd yn cyfateb i 5 mlynedd o bensiwn. Mae'r CPLIL yn eich galluogi i ddweud pwy hoffwch gael unrhyw grant marwolaeth drwy gwblhau ffurflen Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth, sydd ar gael gan wefan y Gronfa Bensiwn. Fodd bynnag, mae awdurdod gweinyddu'r Cynllun yn cadw disgrisiwn llwyr wrth benderfynu pwy y telir grant marwolaeth.

# Leavers without an immediate entitlement to benefits

## Refunds of Contributions

If you leave the LGPS with less than 2 years total membership, have not brought a transfer into the LGPS and do not already have a deferred benefit in the LGPS in England or Wales, you may take a refund of your contributions, less any deductions for tax (and the cost of buying you back into the State Second Pension scheme (S2P), if applicable).

## Deferred benefits

If you leave the LGPS before your NPA and your total membership is 2 years or more, or you have transferred other pension rights into the LGPS, or you already have a deferred benefit in the LGPS in England or Wales, you will be entitled to deferred benefits within the LGPS. Your deferred LGPS benefits will be calculated as described in **The Benefits** section. During the period of deferment, your pension benefits will be increased each year in line with the appropriate cost of living index.

Unless you decide to transfer your deferred benefits to another pension arrangement, they will normally be paid at your NPA, but:

- they may be put into payment earlier, and in full if, because of ill health, you are permanently incapable of undertaking the job you were working in when you left the LGPS and you have a reduced likelihood of being capable of undertaking gainful employment within 3 years of applying for the benefit or by your NPA, whichever occurs first; or
- you can, if you wish, elect to receive your deferred benefits early from age 55 onwards; or
- you can, if you wish, elect not to draw your deferred benefits at your NPA and defer drawing them until some time later (although they must be paid by age 75).

Benefits paid early, other than on the grounds of permanent ill health, may be reduced to take account of their early payment and the fact that your pension will be paid for longer. Conversely, benefits paid after your NPA will be increased to reflect the late payment.

If you die before your deferred benefits come into payment, a lump sum death grant equal to 5 years pension will be paid. The LGPS allows you to say who you would like any death grant to be paid to by completing an Expression of Wish form, which is available from the Pension Fund website. The Scheme's administering authority, however, retains absolute discretion when deciding who to pay any death grant to.

## Buddion gohiriedig (parhâd)

Mae Pensiwn goroeswr yn daladwy yn awtomatig i weddw, wr gweddwr, partner sifil cofrestredig neu, yn ddarostyngedig i amodau cymhwysio penodol, eich partner sy'n cyd-fyw cymwys a hefyd unrhyw blant cymwys sydd gennych. Mae'r pensiwn yn daladwy yn syth ar ôl i chi farw am eu hoes a bydd yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â mynegai costau byw priodol.

Ar gyfer aelodaeth a adeiladwyd i fyny o Ebrill 1, 2014, mae'r pensiwn sy'n daladwy yn hafal i 1/160ain o'ch cyflog a ddefnyddiwyd i gyfrifo eich buddion gohiriedig wedi ei luosi gydag eich aelodaeth yn y cynllun ar ôl 31 Mawrth 2014, yn ogystal â 49/160ain o swm unrhyw pensiwn sydd wedi ei gredydu i'ch cyfrif pensiwn yn dilyn trosglwyddo hawliau pensiwn.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth mewn perthynas â chymhwysedd eich Partner sy'n Cyd-fyw, neu ar gyfrifo pensiynau Plant, cysylltwch â'r Adran Bensiynau.

## A allaf drosglwyddo fy muddion i rywle arall?

Os byddwch yn gadael y cynllun a bod gennych hawl i fuddion gohiriedig neu ad-daliad fel arfer gallwch drosglwyddo'r swm o arian sy'n cyfateb i'ch buddion pensiwn i drefniant pensiwn arall neu i gynllun pensiwn cyflogwr newydd. Gallai hyn hyd yn oed fod yn gynllun pensiwn tramor neu'n drefniant sy'n bodloni amodau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi. Ni allwch drosglwyddo eich buddion os byddwch yn gadael â llai na thri mis o aelodaeth neu (ac eithrio mewn perthynas â Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol) os bydd llai na blwyddyn cyn eich Oedran Pensiwn Arferol. Mae'n rhaid dewis trosglwyddo (ac eithrio mewn perthynas â Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol) o leiaf 12 mis cyn eich Oedran Pensiwn Arferol.

Bydd angen dyfynbris o'r gwerth a drosglwyddir ar eich darparwr pensiwn newydd a fydd yn cael ei warantu gan eich cronfa pensiwn, o dan y darpariaethau a gyflwynwyd gan Ddeddf Pensiynau 1995, am gyfnod o dri mis o'r dyddiad y cafodd ei gyfrifo.

## Deferred benefits (continued)

A survivor's pension is automatically payable to a spouse, registered civil partner or, subject to certain qualifying conditions, your eligible co-habiting partner and also to any eligible children you may have. The pension is payable immediately after your death for their lifetime and will increase every year in line with the appropriate cost of living index.

For membership built up from 1 April 2014, the pension payable is equal to 1/160th of your pensionable pay upon which your deferred pension was calculated, times your membership in the scheme after 31 March 2014; plus 49/160ths of the amount of any pension credited to your pension account following a transfer of pension rights.

If you wish to receive further information regarding the eligibility of your Co-habiting Partner or the calculation of a Child's pension, please contact the Pension Section.

## Can I transfer my benefits elsewhere?

If you leave the scheme and you are entitled to deferred benefits or a refund you can generally transfer the cash equivalent of your pension benefits into another pension arrangement or a new employer's pension scheme. This may even be to an overseas pension scheme or arrangement that meets HM Revenue and Customs conditions. You cannot transfer your benefits if you leave with less than 3 months membership or (other than in respect of AVC if you leave less than one year before your Normal Pension Age (NPA). An option to transfer (other than in respect of AVC must be made at least 12 months before your NPA.

Your new pension provider will require a transfer value quotation which, under the provisions introduced by the Pensions Act 1995, your pension fund will guarantee for a period of three months from the date of calculation.

## A gaf i drosglwyddo fy muddion i rywle arall?

Fel arall, os ydych yn dychwelyd i'r gwaith gyda chyflogwr sy'n cymryd rhan yn y CPLIL ac yn ailymuno â'r CPLIL ar ôl cronni hawliau pensiwn CPLIL yn flaenorol (h.y. roeddech wedi gadael cyflogaeth CPLIL yn flaenorol â buddion gohiriedig) yna bydd y buddion gohiriedig hyn fel arfer yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i'r cyfrif pensiwn gweithredol ar gyfer eich swydd newydd, oni bai y byddwch yn dewis eu cadw ar wahân. Yn achos buddion sydd fel arfer yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig, os ydych yn dymuno trosglwyddo eich buddion gohiriedig ar wahân mae'n rhaid i chi ddewis gwneud hynny o fewn 12 mis o ailymuno â'r CPLIL, oni bai bod eich cyflogwr yn caniatáu ichi gael mwy o amser. Os ydych yn ailymuno â'r CPLIL ar ôl gadael cyflogaeth CPLIL yn flaenorol heb gronni hawliau pensiwn ond eich bod wedi gohirio cymryd ad-daliad o gyfraniadau (fel arfer lle mae gennych lai na dwy flynedd o aelodaeth) yna bydd yn **rhaid** i'r ad-daliad gohiriedig hwn gael ei gyfuno â'ch cyfrif pensiwn gweithredol newydd yn y cynllun.

## Trosglwyddo eich buddion i gynllun cyfraniadau diffiniedig

Cyflwynwyd buddion hyblyg gan y Llywodraeth ar 6 Ebrill 2015 i ganiatáu mwy o ryddid i aelodau cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, sydd dros 55 oed, mewn perthynas â sut y maent yn tynnu arian o'u pot pensiwn.

Nid yw'r CPLIL yn gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig (mae'n gynllun buddion diffiniedig) ac felly, nid yw'r newidiadau hyn yn effeithio'n uniongyrchol arno. Fodd bynnag, os byddwch yn rhoi'r gorau i gyfrannu at y CPLIL a bod gennych dri mis neu ragor o aelodaeth, yna oni bai eich bod yn ymddeol ar unwaith yn sgîl dileu swydd, effeithlonrwydd busnes neu salwch, bydd gennych yr hawl i drosglwyddo eich pensiwn CPLIL i gynllun cyfraniadau diffiniedig sy'n darparu buddion hyblyg.

Nodwch y bydd yn ofynnol ichi, dan y gyfraith, gael cyngor ariannol annibynnol os yw gwerth eich buddion pensiwn yn y CPLIL (ac eithrio Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol) yn fwy na £30,000. Ni fydd yn ofynnol ichi gael cyngor ariannol annibynnol os yw gwerth eich buddion yn llai na £30,000. Fodd bynnag, nid yw trosglwyddo eich hawliau pensiwn bob amser yn benderfyniad hawdd ei wneud a gallai gofyn am gymorth gan ymgynghorydd ariannol annibynnol cyn gwneud penderfyniad i drosglwyddo eich helpu i wneud penderfyniad priodol.

Mae pedwar prif opsiwn ar gyfer aelodau, dros 55 oed, sy'n rhan o gynllun cyfraniadau diffiniedig sy'n darparu buddion hyblyg, gan gynnwys:

- prynu blwydd-dal
- tynnu i lawr yn hyblyg
- cymryd nifer o symiau arian parod ar wahanol adegau
- cymryd eich cronfa pensiwn gyfan fel arian ar yr un pryd

Os ydych yn aelod â Chredyd Pensiwn gohiriedig, mae'r CPLIL yn caniatáu i'ch hawliau wedi'u diogelu gael eu trosglwyddo, ar yr amod eich bod yn dewis y Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod o leiaf 12 mis cyn eich Oedran Pensiwn Arferol ac nad ydych eisoes yn derbyn pensiwn gan Gredyd Pensiwn arall yn y cynllun.

## Can I transfer my benefits elsewhere?

Alternatively, if you return to employment with an employer participating in the LGPS and rejoin the LGPS after having previously built up LGPS pension rights (i.e. you previously left an LGPS employment with deferred benefits) then these deferred benefits will normally automatically be transferred to the active pension account for your new job, unless you elect to keep them separate. If, for benefits that are normally automatically transferred, you wish to keep your deferred benefits separate you must elect to do so within 12 months of re-joining the LGPS, unless your employer allows you longer. If you rejoin the LGPS after having previously left an LGPS employment without building up pension rights but you deferred taking a refund of contributions (normally where you have less than two years membership) then this deferred refund **must** be joined with your new active pension account in the scheme.

## Transferring your benefits to a defined contribution scheme

Flexible benefits were introduced by the Government from 6 April 2015 to allow members of defined contribution schemes, who are over age 55, more freedom on how they take money from their pension pot.

The LGPS is not a defined contribution pension scheme (it is a defined benefit scheme) and as such, it is not directly affected by these changes. However, if you stop paying into the LGPS and you have three or more months' membership, then unless you are retiring with immediate effect due to redundancy, business efficiency or ill health, you will have the right to transfer your LGPS pension to a defined contribution scheme providing flexible benefits.

Please note that you will be required by law to take independent financial advice if the value of your pension benefits in the LGPS (excluding AVC) is more than £30,000. You are not required to take independent financial advice if the value of your benefits is less than £30,000. However, transferring your pension rights is not always an easy decision to make and seeking the help of an independent financial adviser before you make a decision to transfer could help you in making an appropriate decision.

There are four main options for members, aged over 55, who are in a defined contribution scheme which provides flexible benefits, including:

- purchasing an annuity
- flexi-access drawdown
- taking a number of cash sums at different stages
- taking the whole pot as cash in one go

If you are a deferred Pension Credit member, the LGPS allows the transfers of your safeguarded rights, provided you elect for the CETV at least 12 months before your NPA and you are not already in receipt of a pension from another Pension Credit in the scheme.

## Beth yw'r opsiynau mewn perthynas â'm cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) mewnol?

Ni allwch ddewis tynnu pensiwn i lawr o'ch CGY fel un o opsiynau'r cynllun; gallwch dynnu pensiwn i lawr o'ch CGY dim ond os byddwch yn trosglwyddo eich cynllun CGY i gynllun sy'n caniatáu tynnu i lawr. Nid oes unrhyw opsiwn yn y CPLIL i chi gymryd cyfandaliad cronfeydd pensiwn heb eu crisialu (UFPLS) o'ch CGY; gallwch ddefnyddio'r opsiwn UFPLS dim ond drwy drosglwyddo eich cynllun CGY i gynllun sy'n caniatáu UFPLS. Gallwch ddefnyddio eich CGY i brynu un neu ragor o flwydd-daliadau, i gymryd cyfandaliad cychwyn pensiwn, ac mewn rhai amgylchiadau, i brynu aelodaeth ychwanegol yn y CPLIL a/neu brynu pensiwn CPLIL atodol. I gael rhagor o wybodaeth am yr opsiynau hyn, cysylltwch â'r Adain Bensiynau.

Mae'r CPLIL yn caniatáu trosglwyddo hawliau cronedig o ran CGY ar yr amod eich bod wedi rhoi'r gorau i dalu CGY ac na fu digwyddiad crisialu mewn perthynas â buddion CGY CPLIL yn y gronfa honno neu yn unrhyw gronfa CPLIL arall yng Nghymru a Lloegr. Nodwch fod digwyddiad crisialu i'r diben hwn yn golygu talu pensiwn neu flwydd-dal sy'n deillio o GGY. Hefyd, os oes gennych fwy nag un cynllun CGY, mae'n rhaid i chi eu trosglwyddo i gyd, hyd yn oed os yw'r cynlluniau CGY hynny mewn cronfeydd CPLIL gwahanol. Nid yw'r CPLIL ei hun yn gosod unrhyw gost ar aelod sy'n arfer hawl i drosglwyddo (ond efallai y bydd y darparwr CGY yn addasu gwerth y gronfa CGY).

## What are the options regarding my in-house AVC plan?

You cannot obtain a drawdown pension from your AVC as a scheme option; you can only obtain a drawdown pension from your AVC if you transfer your AVC plan to a scheme that permits drawdown. There is no option in the LGPS for you to take an uncrystallised funds pension lump sum (UFPLS) from your AVCs; you can only utilise the UFPLS option by transferring your AVC plan to a scheme that permits an UFPLS. You can use your AVC to buy one or more annuities, take a pension commencement lump sum, and in certain circumstances, buy extra membership in the LGPS and /or buy a top-up LGPS pension. For further information about these options, please contact the Pensions Section.

The LGPS does allow a transfer of accrued AVC rights provided you have ceased paying AVCs and that a crystallisation event has not occurred in relation to LGPS AVC benefits in that or any other LGPS fund in England and Wales. Note that a crystallisation event for this purpose is payment of a pension or annuity derived from AVC. In addition, if you have more than one AVC plan, you must transfer them all, even if those AVC plans are in different LGPS funds. The LGPS itself does not impose any cost on a member exercising a right to transfer (but the AVC provider might make an adjustment to the AVC fund value).

## Cymorth gyda Phroblemau Pensiwn

### Pwy all fy helpu os oes gennyf gwestiwn neu gŵyn?

Os oes gennych unrhyw amheuaeth am eich hawliau budd, neu os oes gennych broblem neu gwestiwn am eich aelodaeth CPLIL neu fuddion, cysylltwch â'ch Adran Bensiynau yn y cyfeiriad a ddangosir ar ddiwedd y canllaw byr yma. Byddant yn ceisio egluro neu gywiro unrhyw gamddealltwriaeth neu anghywirdeb mor fuan ac effeithlon â phosib. Os yw'r ymholiad ynghylch eich cyfradd cyfrannu, yna cysylltwch gyda Adran Adnoddau Dynol neu Adran Gyflogau eich Cyflogwr. Byddent yn gallu egluro sut maent wedi cyfrifo eich cyfradd cyfrannu. Os ydych yn parhau i fod yn anafodlon ag unrhyw benderfyniad a wneir mewn perthynas â'r Cynllun, mae gennych yr hawl i ofyn i'ch cŵyn gael ei adolygu yn annibynnol dan y Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol ac, oherwydd bod y cynllun wedi ei reoleiddio yn dda, mae yna hefyd nifer o gyrff rheoli eraill a all eich helpu. Rhestrir y gweithdrefnau amrywiol a chyrrff isod.

### Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol

Yn y lle cyntaf dylech ysgrifennu at berson a enwebir gan y corff a wnaeth y penderfyniad ynglŷn â'r hyn yr ydych yn dewis apelio yn ei erbyn. Rhaid i chi wneud hyn o fewn **6 mis** i ddyddiad hysbysiad y penderfyniad, gweithred neu'r esgeulustod yr ydych yn dymuno cwyno yn ei erbyn, neu gyfnod hirach a chaniateir gan y person enwebedig. Bydd y person a enwebir yn ystyried eich cŵyn ac yn eich hysbysu o'i benderfyniad / phenderfyniad. Os nad ydych yn fodlon â phenderfyniad y person yma (neu eu methiant i wneud penderfyniad), fe allwch wneud cais i awdurdod gweinyddu'r Cynllun er mwyn cael ei ail ystyried.

### Y Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau (TPAS)

Os oes gennych chi geisiadau cyffredinol am wybodaeth neu arweiniad- ynglŷn a'ch trefniadau pensiwn, cysylltwch â:

**The Pensions Advisory Service, 11 Belgrave Road, London, SW1V 1RB**

Ffôn: **0800 011 3797**

Gwefan: **[www.pensionsadvisoryservice.org.uk/about-us/our-website/cymraeg](http://www.pensionsadvisoryservice.org.uk/about-us/our-website/cymraeg)**

### Ombwdsman Pensiynau

Mae gennych yr hawl i gyfeirio'ch cwyn at Yr Ombwdsman Pensiynau yn rhad ac am ddim. Mae Yr Ombwdsman Pensiynau yn ymdrin â chwynion ac anghydfodau sy'n ymwneud â gweinyddu a / neu reoli cynlluniau pensiwn galwedigaethol a phersonol. Mae angen gwneud cysylltiad â'r Ombwdsman Pensiynau ynglŷn a'ch cwyn o fewn **tair blynedd** o'r ddiwyddiad yr ydych yn cwyno amdano - neu, os yn ddiweddarach, o fewn **tair blynedd** o bryd y gwyddoch chi am yr digwyddiad am y tro cyntaf (neu y dylai fod wedi gwybod amdano). Mae yna ddisgresiwn i ymestyn y terfynau amser hynny. Manylion cyswllt yr Ombwdsman Pensiynau yw:

**10 South Colonnade, Canary Wharf, London, E14 4PU**

Ffôn: **0800 917 4487**

E-bost: **[enquiries@pensions-ombudsman.org.uk](mailto:enquiries@pensions-ombudsman.org.uk)**

Gwefan: **[www.pensions-ombudsman.org.uk/cymraeg/](http://www.pensions-ombudsman.org.uk/cymraeg/)**

## Help with Pension Problems

### Who can help me if I have a query or complaint?

If you are in any doubt about your benefit entitlements or have a problem or question about your LGPS membership or benefits, please contact the Pension Section at the address shown at the end of this guide. They will seek to clarify or put right any misunderstandings or inaccuracies as quickly and efficiently as possible. If your query is about your contribution rate, please contact your Employer's HR/Payroll department, so they can explain how they have calculated your contribution rate.

If you are still dissatisfied with any decision made in relation to the Scheme, you have the right to have your complaint independently reviewed under the Internal Disputes Resolution Procedure, and as the scheme is well regulated, there are also a number of other regulatory bodies that may be able to assist you. The various procedures and bodies are detailed below.

### Internal Disputes Resolution Procedure

In the first instance you should write to the person nominated by the body who made the decision about which you wish to appeal. You must do this within **6 months** of the date of the notification of the decision or act or omission about which you are complaining, or such longer period as the nominated person may allow. The nominated person will consider your complaint and notify you of his/her decision. If you are dissatisfied with that person's decision (or their failure to make a decision), you may apply to the Scheme's administering authority to have it reconsidered.

### The Pensions Advisory Service (TPAS)

If you have general requests for information or guidance concerning your pension arrangements contact:

**The Pensions Advisory Service, 11 Belgrave Road, London, SW1V 1RB**

Tel: **0800 011 3797**

Website: **[www.pensionsadvisoryservice.org.uk/](http://www.pensionsadvisoryservice.org.uk/)**

### The Pensions Ombudsman (TPO)

You have the right to refer your complaint to The Pensions Ombudsman free of charge. The Pensions Ombudsman deals with complaints and disputes which concern the administration and/or management of occupational and personal pension schemes.

Contact with The Pensions Ombudsman about a complaint needs to be made within **three years** of when the event(s) you are complaining about happened – or, if later, within **three years** of when you first knew about it (or ought to have known about it). There is discretion for those time limits to be extended.

The Pensions Ombudsman can be contacted at:

**10 South Colonnade, Canary Wharf, London, E14 4PU**

Tel: **0800 917 4487**

Email: **[enquiries@pensions-ombudsman.org.uk](mailto:enquiries@pensions-ombudsman.org.uk)**

Website: **[www.pensions-ombudsman.org.uk](http://www.pensions-ombudsman.org.uk)**

## Y Rheolydd Pensiynau (TPR)

Dyma rheolydd cynlluniau pensiwn gwaith. Mae gan y Rheolydd Pensiynau bwerau i ddiogelu aelodau cynlluniau pensiwn gwaith ac ystod eang o bwerau i gynorthwyo i ddatrys materion pan fo'r angen. Mewn achosion eithafol gall y Rheolydd ddirywio ymddiriedolwyr neu gyflogwyr a diswyddo ymddiriedolwyr o gynllun. Gallwch gysylltu â'r Rheolydd Pensiynau yn:

Napier House  
Trafalgar Place  
Brighton  
BN1 4DW

Ffôn: **0345 6000 707**

## Sut y gallaf olrhain fy hawliau pensiwn?

Mae Gwasanaeth Olrhain Pensiynau yn cynnwys manylion o gynlluniau pensiwn, yn cynnwys y CPLIL ynghyd â chyfeiriadau cyswllt perthnasol. Mae'n darparu gwasanaeth olrhain ar gyfer cyn-aelodau cynlluniau gyda hawliau pensiwn (a'u dibynyddion) sydd wedi colli cysylltiad â'u cynlluniau blaenorol. Mae'n rhaid i bob cynllun galwedigaethol a phersonol gofrestru os oes gan y cynllun pensiwn aelodau presennol sy'n cyfrannu i'w cynlluniau neu bobl sy'n disgwyl cael budd o'r cynllun.

Os ydych angen defnyddio'r gwasanaeth olrhain, ysgrifennwch at:

The Pension Service 9  
Mail Handling Site A  
Wolverhampton  
WV98 1LU

Ffôn: **0800 731 0193**

Hefyd, peidiwch ag anghofio rhoi gwybod i'ch darparwyr pensiwn am unrhyw newid yn eich cyfeiriad cartref.

## The Pensions Regulator (TPR)

This is the regulator of work-based pension schemes. The Pensions Regulator has powers to protect members of work-based pension schemes and a wide range of powers to help put matters right, where needed. In extreme cases, the Regulator is able to fine trustees or employers and remove trustees from a scheme.

You can contact the Pensions Regulator at:

Napier House  
Trafalgar Place  
Brighton  
BN1 4DW

Telephone: **0345 6000 707**

## How can I trace my pension rights?

The Pension Tracing Service holds details of pension schemes, including the LGPS, together with relevant contact addresses. It provides a tracing service for ex-members of schemes with pension entitlements (and their dependants), who have lost touch with previous schemes. All occupational and personal pension schemes have to register if the pension scheme has current members contributing to their scheme or people expecting benefits from the scheme.

If you need to use this tracing service, please write to:

The Pension Service 9  
Mail Handling Site A  
Wolverhampton  
WV98 1LU

Telephone: **0800 731 0193**

Also, do not forget to keep your pension providers up to date with any change in your home address.

## Gwybodaeth Bellach ac Ymwadiad

Mae'r canllaw yma ar gyfer aelodau yn Lloegr neu yng Nghymru ac mae'n adlewyrchu darpariaethau y CPLIL a'r ddeddfwriaeth or-redol ar yr adeg cyhoeddi (**1 Ebrill 2019**).

Gall y Llywodraeth newid y ddeddfwriaeth or-redol a gallent, ar ôl ymgynghoriaeth gyda buddgyfranogwyr, wneud newidiadau i'r CPLIL yn y dyfodol.

**Ni all y canllaw byr yma gynnwys pob amgylchiad personol.** Er enghraifft, nid yw'n cynnwys buddion ymddeoliad salwch sydd heb eu cynyddu. Yn ogystal, nid yw'n cynnwys yr hawliau sy'n berthnasol i nifer cyfyngedig o aelodau e.e. y rhai hynny ble mae cyfanswm eu buddion pensiwn yn fwy na'r Lwfans Am Oes (£1,055,000 o Ebrill 2019) neu'r rhai sydd â'i buddion pensiwn yn cynyddu yn fwy na'r Lwfans Blyneddol (£40,000 o Ebrill 2014) mewn unrhyw flwyddyn dreth, neu y rhai sy'n amodol i gost treth lwfans blyneddol arbennig, y rhai hynny ble mae hawliau a amddiffynnir yn berthnasol, neu'r rhai hynny sydd dan reolaeth Gorchymyn Rhannu Pensiwn yn dilyn ysgariad neu ddiddymiad partneriaeth sifil.

Nodwch os yw eich buddion pensiwn yn amodol ar Orchymyn Rhannu Pensiwn a gyhoeddwyd gan y Llys yn dilyn ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil, bydd eich buddion yn cael eu lleihau yn unol â'r Gorchymyn Llys neu gytundeb.

Mewn achos unrhyw anghydfod ynglŷn â'ch buddion pensiwn, bydd y ddeddfwriaeth briodol yn drech. Nid yw'r canllaw byr yma yn cyflwyno unrhyw hawliau amodol neu statudol ac fe'i darperir er gwybodaeth yn unig.

Cyngor Gwynedd yw gweinyddwr Cronfa Bensiwn Gwynedd a defnyddiwn eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaethau gweinyddu pensiwn i chi. Am ragor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio'ch data, pwy rydym yn ei rhannu â, a pha hawliau sydd gennych chi mewn perthynas â'ch gwybodaeth, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd ar wefan Cronfa Bensiwn: **[www.cronfabensiwnngwynedd.cymru](http://www.cronfabensiwnngwynedd.cymru)**

Gellir cael rhagor o wybodaeth fwy manwl am CPLIL gan:

Adran Bensiynau  
Cyngor Gwynedd  
Swyddfeydd y Cyngor  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1SH

Ffôn: **01286 679 982**

E-bost: **[pensiynau@gwynedd.llyw.cymru](mailto:pensiynau@gwynedd.llyw.cymru)**

Safle Wê: **[www.cronfabensiwnngwynedd.cymru](http://www.cronfabensiwnngwynedd.cymru)**

## Further Information and Disclaimer

This guide is for members within England and Wales and reflects the provisions of the LGPS and overriding legislation at the time of publication (**1 April 2019**).

The Government may make changes to overriding legislation and after consultation with interested parties, may make changes in the future to the LGPS.

**This guide cannot cover every personal circumstance.** For example, it does not cover unenhanced ill health retirement benefits. Nor does it cover rights that apply to a limited number of members e.g. those whose total pension benefits exceed the Lifetime Allowance (£1,055,000 from April 2019) or whose pension benefits increase in any tax year by more than the Annual Allowance (£40,000 from April 2014), or those who are subject to a special annual allowance tax charge, those to whom protected rights apply or those whose rights are subject to a Pension Sharing Order following divorce or dissolution of a civil partnership.

Please note that If your pension benefits are subject to a Pension Sharing Order issued by the Court following a divorce or dissolution of a civil partnership, your benefits will be reduced in accordance with the Court Order or agreement.

In the event of any dispute over your pension benefits, the appropriate legislation will prevail. This short guide does not confer any contractual or statutory rights and is provided for information purposes only.

More detailed information about the LGPS is available from the:

Gwynedd Council is the administering authority of the Gwynedd Pension Fund and we use your personal data in accordance with Data Protection legislation to provide you with pension administration service. For more information about how we use your data, who we share it with and what rights you have to in relation to your information, please visit the Privacy Notice on the Pension Fund website: **[www.gwyneddpensionfund.wales](http://www.gwyneddpensionfund.wales)**

More detailed information about the LGPS is available from the:

Pensions Section  
Gwynedd Council  
Council Offices  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1SH

Tel: **01286 679 982**

E-mail: **[pensions@gwynedd.llyw.cymru](mailto:pensions@gwynedd.llyw.cymru)**

Website: **[www.gwyneddpensionfund.wales](http://www.gwyneddpensionfund.wales)**